James Wilson – Cyfarwyddwr, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor

Mae James wedi bod yn rhan o sectorau pysgodfeydd a dyframaethu yn y DU ac Ewrop ers dros 20 mlynedd, gydag amaethu cregyn gleision yn y Gogledd yn weithgarwch craidd. Mae wedi helpu i ddatblygu cysylltiadau cryf rhwng y sector â'r gymuned ymchwil gwyddonol a sefydliadau amgylcheddol yn ystod y cyfnod hwn, gyda ffocws diweddar ar y problemau a'r gwyddoniaeth sy'n gysylltiedig â physgod cregyn a pathogenau a gludir mewn moroedd, sy'n deillio o fodau dynol. Mae'r amcanion cyfredol yn cynnwys cynyddu faint o bysgod cregyn sy'n cael eu hamaethu yng Nghymru, mewn lleoliadau confensiynol a mwy heriol ar y môr; canfod ffyrdd gwell o farchnata bwyd môr Cymru yn ddomestig a rhyngwladol; a datblygu sail wyddonol a chynaliadwy cryf ar gyfer holl weithgareddau dyframaethu a Physgodfeydd Cymru.

Mae wedi'i benodi gan Weinidogion i Fwrdd Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (Seafish) ac mae'n aelod o Fwrdd Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr.